# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Twm Tri (3)** |
| Adnoddau: | Llyfrau:<br>• ‘Cymeriadau Difyr: Twm Tri’<br>• ‘Tri Mochyn Bach’ / ‘Tri Bwch Gafr’. |
| Camau: | Cam 1 - Darllenwch a thrafodwch y llyfr ‘Cymeriadau Difyr: Twm Tri’.<br><br>Cam 2 - Darllenwch y ‘Tri Mochyn Bach’ neu'r ‘Tri Bwch Gafr’, gan drafod y stori a phwysigrwydd rhif 3.<br><br>Cam 3 - Gwnewch weithgareddau yn yr ardal allanol, e.e.<br>• Creu 3 thŷ allan o frigau, blociau adeiladu, lego ac ati. Gallwch ddefnyddio adnoddau sydd o'ch cwmpas/adnoddau naturiol.<br>• Creu pont gref gan ddefnyddio pren, blociau ac ati i sicrhau bod y 3 Bwch Gafr yn gallu croesi'r afon yn ddiogel.<br><br>Cam 4 - Gwnewch Helfa Drysor o amgylch yr ardal allanol. Cuddiwch 3 mochyn neu 3 bwch gafr a chael y dysgwyr i ddarganfod y rhain. |
| Cwestiynu: | Trefnwch y blociau o'r lleiaf i'r mwyaf wrth adeiladu'r bont.<br>Trefnwch y tai o'r lleiaf i'r mwyaf. Pa dŷ ydy'r mwyaf / lleiaf? |
| Beth nesaf? | Creu trionglau o feintiau gwahanol allan o bren, brigau, sialc. |

